OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1597 (Cy. 207)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33, Capel Llanilltern, Caerdydd, y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym* | *29 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33, Capel Llanilltern, Caerdydd, y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt"("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn a cherbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 29 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r draffordd" ("*the length of the motorway*") yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 33, Capel Llanilltern, yn Ninas a Sir Caerdydd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darn o'r drafford.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn cael ei ddangos gan arwyddion traffig.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 19 Mehefin 2012.

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.